PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

ADRODDIAD AROLYGU AC ADOLYGU

CYNLLUN IAITH GYMRAEG

2011 / 12

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiad ynglŷn â'r Adroddiad hwn at:

Dr. Rhodri Ll. Evans

Swyddog Datblygu a Hyrwyddo'r Gymraeg

Canolfan Bedwyr

r.l.evans@bangor.ac.uk

01248 383293

ADRAN 1

Sicrhau'r cyfleusterau i unigolion ymwneud â'r Brifysgol ar bob achlysur ac at bob pwrpas yn y Gymraeg neu Saesneg yn ôl eu dewis.

a. STAFFIO[1]

BLAENORIAETH	Cynnig gwasanaeth dwyieithog i staff, myfyrwyr ac aelodau'r cyhoedd mewn sefyllfaoedd 'cyswllt cyntaf'.
Dangosydd Perfformiad	Nifer y swyddi gweinyddol a hysbysebwyd ble nodwyd y Gymraeg fel sgil hanfodol a'r ganran a lenwyd gan siaradwyr Cymraeg.
Targed	Hysbysebu pob swydd 'cyswllt cyntaf' fel swydd 'Cymraeg Hanfodol'.
Canlyniad	Hysbysebwyd 47 o swyddi ar lefel A1 neu A2 (Cymraeg yn Hanfodol) a 26 o swyddi ar lefel B1 neu B2 (Cymraeg yn Hanfodol neu Barodrwydd i Ddysgu). Ar gyfer y swyddi A1 ac A2, penodwyd siaradwyr Cymraeg i 44 (94%) o'r swyddi hyn. Ar gyfer y 3 swydd arall a hysbysebwyd ar lefel A1 ac A2, penodwyd 2 (4%) sy'n siarad ychydig o Gymraeg ac nid oes gwybodaeth am allu ieithyddol 1 (2%) o'r rhai a benodwyd. Ar gyfer y 26 swydd ar lefel B1 neu B2 roedd 11 (42%) o'r rhai a benodwyd yn siarad Cymraeg, 7 (27%) yn siarad ychydig o Gymraeg ac 8 (31%) ddim yn siarad Cymraeg.
Sylwadau	Yn 2010/11, adroddwyd na ddylid defnyddio'r categori B ('parodrwydd i ddysgu') a chategori C ('Cymraeg yn ddymunol') ar gyfer swyddi ar y lefel glerigol. Mae hyn am eu bod yn aml yn swyddi sydd sy'n cynnig gwasanaeth 'cyswllt cyntaf' ac am fod y sgiliau y gofynnir amdanynt yn rhai generig gan amlaf. Yn 2010/11, hysbysebwyd 37 o swyddi clerigol fel rhai 'Cymraeg yn Ddymunol' (mwy nag a hysbysebwyd ar lefel A a B y flwyddyn honno). O'r 104 swydd glerigol a hysbysebwyd yn 2011/12, 32 (31%) o'r rhai hynny oedd â gofyn iaith yng nghategori C, 26 (25%) yng nghategorïau B1 a B2 a 47 (44%) yng nghategorïau A1 ac A2. O blith y 32 swydd yng nghategori C, roedd deiliad 10 (31%) ohonynt yn nodi eu bod yn siarad Cymraeg yn rhugl a 9 (28%) yn nodi eu bod yn siarad ychydig o Gymraeg. Yn y mwyafrif helaeth o achosion (94%), mae siaradwyr Cymraeg yn cael eu penodi i swyddi 'Cymraeg yn Hanfodol'. Cafwyd cynnydd o 11% ar ffigwr 2010/11 yn nifer y siaradwyr Cymraeg a benodwyd i'r swyddi hyn a bydd y Brifysgol yn gweithio i sicrhau bod pob un o'r penodiadau hyn yn gallu siarad Cymraeg yn 2012/13. Ar gyfer swyddi ar lefel B1

[1] Dyddiad cywain yr holl ystadegau staffio oedd Tachwedd 2012.

	a B2 (lle y gellid, mewn rhai achosion, benodi rhai sydd ddim yn siarad Cymraeg ar yr amod eu bod yn dysgu), mae'r mwyafrif helaeth o'r rhai a benodir (69%) un ai'n siarad Cymraeg yn rhugl neu'n siarad ychydig o Gymraeg yn barod. Mae hyn yn galonogol ac yn profi bod unigolion a chanddynt sgiliau addas i wneud y swydd yn ogystal â sgiliau iaith Gymraeg ar gael. Yn dilyn diwygio'r 'Cod Ymarfer ar benodi staff yn unol â'r Cynllun Iaith', mae canllawiau cadarn yn eu lle at ddefnydd rheolwyr wrth iddynt ystyried gofynion ieithyddol swyddi newydd.

b. STAFFIO

BLAENORIAETH	Cynyddu'r nifer o staff ar draws y lefelau swyddi clerigol ac academaidd gysylltiedig sy'n gallu gweithredu'n ddwyieithog er mwyn datblygu ethos dwyieithog y sefydliad.
Dangosydd Perfformiad	Nifer a chanran y staff gweinyddol sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl gradd y swydd.
Targed	Dangos cynnydd blynyddol (yn ôl canran) yn nifer y siaradwyr Cymraeg ymhlith staff clerigol ac academaidd gysylltiedig.
Canlyniad	Gweler Ystadegau Staffio: Tabl 1, 2 a 4. Mae canran y staff ALC sy'n nodi eu bod yn siarad Cymraeg neu'n siarad ychydig o Gymraeg wedi gostwng 3% a chanran y staff clerigol sy'n nodi eu bod yn siarad Cymraeg neu'n siarad ychydig o Gymraeg wedi cynyddu 1%.
Sylwadau	Mae'r ganran o holl staff y Brifysgol sydd yn siarad Cymraeg wedi gostwng 1% (44%). Mae canran y rhai sydd yn siarad ychydig o Gymraeg wedi gostwng 2% (20%). Dylid nodi bod y cyfanswm o holl staff y Brifysgol sydd wedi nodi eu bod yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n siarad ychydig o Gymraeg wedi aros yn gyson ers 2010/11, sef 1373. Cafwyd cynnydd o 3% yn nifer staff y Brifysgol nad ydynt yn siarad Cymraeg. Bu gostyngiad sylweddol yng nghyfanswm y staff a benodwyd yn ystod 2011/12 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae canran y staff ALC sy'n siarad Cymraeg yn rhugl wedi gostwng o 34% yn 2010/11 i 28% yn 2011/12; ffaith sy'n destun pryder amlwg, yn enwedig felly o ystyried bod cynnydd o 42% wedi bod yn nifer y staff ALC a benodwyd yn 2011/12 nad ydynt yn siarad Cymraeg a gostyngiad pellach yng nghanran y staff ALC sy'n medru siarad ychydig o Gymraeg – o 39% yn 2010/11 i 5% yn 2011/12. Er bod cynnydd wedi bod yng nghanran y siaradwyr Cymraeg rhugl a benodwyd i swyddi clerigol - o 49% yn 2010/11 i 52% yn 2011/12 - dylid nodi bod nifer y penodiadau wedi gostwng yn sylweddol o un flwyddyn i'r llall: llenwyd 141 swydd glerigol yn 2010/11 o gymharu â 75 swydd yn 2011/12. Dylid nodi hefyd bod

	canrannau'r holl aelodau staff ALC a chlerigol sy'n siarad Cymraeg yn rhugl wedi cynyddu yn 2011/12 – cynnydd o 1% ar gyfer staff ALC a 2% ar gyfer staff clerigol. Bydd y Brifysgol yn parhau i fonitro'r sefyllfa.

c. STAFFIO

BLAENORIAETH	Sicrhau bod sefyllfa staffio'r Brifysgol yn cynnal parhad a datblygiad y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.
Dangosydd Perfformiad	Nifer a chanran y staff academaidd sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl gradd y swydd.
Targed	Dangos cynnydd blynyddol (yn ôl canran) yn nifer y siaradwyr Cymraeg ymhlith staff academaidd.
Canlyniad	Gweler Ystadegau Staffio: Tabl 1, 2 a 5. Mae canran y siaradwyr Cymraeg ymhlith staff academaidd wedi aros yn 30% cyson yn gyffredinol ac wedi gostwng o 33% i 31% ymhlith penodiadau newydd. O ran y canrannau fesul gradd swydd, dengys yr ystadegau fod canran y siaradwyr Cymraeg yn lleihau wrth fynd o raddfa G007 i raddfa ATHRO. Dylid nodi bod yr uned Datblygu Staff wedi cynnal Cwrs Arweinyddiaeth cyfrwng Cymraeg yn 2011/12 fel modd o ddechrau ateb y gofyn a'r angen am fwy o siaradwyr Cymraeg mewn swyddi rheolaethol. Cofrestrodd 11 aelod o staff ar y cwrs hwn.
Sylwadau	Mae'r ffaith fod canran y staff academaidd sy'n gallu siarad Cymraeg wedi aros yn gyson yn galonogol o ystyried bod llai o recriwtio wedi bod yn 2011/12 yn gyffredinol. Serch hyn, bu cynnydd yng nghyfanswm y staff academaidd a gyflogir gan y Brifysgol rhwng 2010/11 a 2011/12, gyda 62 yn fwy o aelodau yn gweithio iddi erbyn Awst 2012 a 39% o'r aelodau hynny yn siarad Cymraeg yn rhugl. Dyma danlinellu arwyddocâd y cyfleoedd y mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn eu cynnig i'r Brifysgol – heb y 9 penodiad a wnaethpwyd dan nawdd y Coleg yn 2011/12, byddai'r ganran o staff academaidd sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl wedi gostwng yn sylweddol. O ran niferoedd y siaradwyr yn ôl gradd swydd, y mae'r canlyniad yr un â'r llynedd ac nid yw hyn yn syndod gan mai proses hirdymor yw gwyrdroi'r duedd hon. Bydd y Brifysgol yn parhau i adolygu'r modd y mae'n datblygu staff academaidd sy'n siarad Cymraeg.

ch. STAFFIO

BLAENORIAETH	Sicrhau bod sefyllfa staffio'r Brifysgol yn sicrhau parhad a datblygiad y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.
Dangosydd Perfformiad	Nifer a chanran y staff academaidd sy'n dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg fesul Ysgol. Nifer a chanran y staff academaidd sy'n medru dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg fesul Ysgol.[2]
Targed	Sicrhau bod y Brifysgol yn rhoi cyfle i staff gynnal a datblygu eu sgiliau ieithyddol i'w galluogi i ddarlithio drwy gyfrwng y Gymraeg.
Canlyniad	Gweler Ystadegau Staffio: Tabl 8. Yn y mwyafrif o'r ysgolion academaidd, mae trwch y staff sy'n siarad Cymraeg hefyd yn dysgu drwy'r Gymraeg.
Sylwadau	Fel y llynedd, mae'r canlyniad yma yn galonogol gan ei fod yn golygu bod modd cynnal ac ehangu'r ddarpraiaeth cyfrwng Cymraeg. Calondid yw gallu nodi mai dim ond mewn dwy ysgol academaidd y gwelwyd gostyngiad yn nghanran y staff yn 2011/12 ac yn wir, y gwelwyd cynnydd sylweddol mewn sawl adran.

d. 3ydd PARTI – GWASANAETHAU AR GYTUNDEB

BLAENORIAETH	Sicrhau bod gofynion y Cynllun Iaith yn cael eu cynnwys mewn cytundebau trydydd parti.
Dangosydd Perfformiad	Nifer a chanran y cytundebau a gafodd eu monitro sy'n cydymffurfio â gofynion y Cynllun Iaith.
Targed	Monitro 3 chytundeb y flwyddyn.
Canlyniad	**Cytundeb 1: Sgriniau cyffwrdd dwyieithog** Gosodwyd sgriniau cyffwrdd (*touchscreens*) mewn nifer o ystafelloedd dysgu yn ystod 2011/12. Datblygwyd dewis iaith ar gyfer y sgriniau hyn mewn cydweithrediad â'r cwmni 3ydd parti a fu'n gyfrifol am eu gosod. **Cytundeb 2: Studentpad**

[2] At bwrpas yr Adroddiad hwn, cymharwyd nifer y siaradwyr Cymraeg fesul ysgol gyda'r nifer o staff sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (yn hytrach na'r nifer sydd wedi nodi eu bod yn gallu dysgu drwy'r Gymraeg ar system Adnoddau Dynol).

	Er mwyn galluogi myfyrwyr i chwilio am lety preifat safonol yn yr ardal lansiwyd gwefan **Studentpad Bangor** yn 2011/12. Cwmni masnachol yw Studentpad (studentpad.co.uk), ac er mwyn cydymffurfio â gofynion Cynllun Iaith y Brifysgol bu'n rhaid iddynt ddatblygu fersiwn dwyieithog o'u gwasanaeth am y tro cyntaf. Gwnaethant hynny mewn cydweithrediad ag Uned Cymraeg Clir Canolfan Bedwyr. Yn sgil datblygu fersiwn ddwyieithog o'u gwasanaeth, mae'n debygol y bydd y cwmni mewn sefyllfa i gynnig eu gwasanaeth i Brifysgolion eraill sy'n meddu ar Gynllun Iaith cadarn. **Cytundeb 3: System e-recriwtio** Daeth system newydd e-recriwtio yr adran Adnoddau Dynol yn weithredol yn Awst 2012. Bu'r cwmni, Lumesse, yn cydweithio gyda'r Brifysgol wrth ddarparu system cwbl ddwyieithog yn unol â'r hyn a nodwyd ym manyleb y Brifysgol yn 2010/11.
Sylwadau	Mae'r tri phrosiect pwysig hyn yn dangos fel y mae sylw priodol yn cael ei roi i ofynion y Cynllun Iaith o'r cychwyn cyntaf wrth sefydlu cytundebau â 3ydd parti.

dd. CWYNION

BLAENORIAETH	Sicrhau bod y brifysgol yn ymateb i weithred neu ymddygiad sy'n tanseilio egwyddorion y Cynllun Iaith.
Dangosydd Perfformiad	Nifer y cwynion a dderbyniwyd am weithrediad y Cynllun Iaith a chanran y cwynion yr ymdriniwyd â hwy yn unol â safonau'r sefydliad.
Targed	Cofnodi pob cwyn a gaiff ei derbyn. Ymchwilio i'r cwynion hynny sy'n awgrymu bod diffyg dealltwriaeth o'r Cynllun a / neu fethiant cyson i'w weithredu'n gywir.
Canlyniad	Gweler rhestr y cwynion a dderbyniwyd (tt.33-4). Derbyniwyd 9 o gwynion am weithrediad y Cynllun Iaith (derbyniwyd 16 cwyn yn 2010/11) ac ymdriniwyd â 100% ohonynt yn unol â safonau'r sefydliad. Mae'r cwynion ynglŷn â Pontio wedi'u grwpio fel un gŵyn.
Sylwadau	Mae systemau cadarn yn eu lle er mwyn delio â chwynion.

ADRAN 2

Datblygu ethos Cymraeg y Brifysgol gan weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb yn ei holl weithgareddau a chan feithrin ysbryd o gytgord a chyd-gynhaliaeth rhwng y diwylliannau

PRIF FFRYDIO'R GYMRAEG

BLAENORIAETH	Prif ffrydio'r Gymraeg i holl weinyddiaeth y brifysgol a datblygu mentrau newydd i hybu defnydd o'r Gymraeg ymhlith staff / myfyrwyr.
Dangosydd Perfformiad	Nifer a chanran y polisïau a mentrau newydd a oedd yn destun asesiad ieithyddol.
Targed	Monitro a gafodd materion ieithyddol eu hystyried wrth i bolisïau a mentrau newydd gael eu datblygu. Monitro 3 polisi newydd y flwyddyn; paratoi a / neu weithredu'n llawn dau gynllun newydd y flwyddyn sydd yn annog neu gynorthwyo staff i ddefnyddio'r Gymraeg.
Canlyniad	Yn 2011/12, paratowyd a gweithredwyd nifer o gynlluniau i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y sefydliad ac roedd y Gymraeg yn parhau yn ystyriaeth o bwys wrth lunio ac adolygu polisïau a strategaethau. Dyma enghreifftiau o gynlluniau o'r fath a gyflwynwyd yn 2011/12: **Bangor360** Aethpwyd ati yn ystod 2011/12 mewn cydweithrediad â rhai adrannau yn y man cyntaf i roi gwedd newydd ar fewnrwyd y Brifysgol gyda'r nod o ganoli holl wasanaethau'r Brifysgol ar gyfer staff a myfyrwyr mewn un man hygyrch. Datblygwyd y fewnrwyd o'r cychwyn cyntaf gyda golwg ar yr angen i ddarparu'r holl wasanaethau yn ddwyieithog. Mae staff dwyieithog hefyd ar gael i ateb unrhyw ymholiad am ei gweithrediad. Roedd y fewnrwyd yn barod i'w lansio ym mis Hydref 2012.

	Gwobr Cyflogadwyedd Bangor Yn dilyn cyfnodau peilot llwyddiannus gyda rhai ysgolion academaidd, cafwyd datblygiadau arwyddocaol ym maes y Wobr yn 2011/12. Penodwyd cydlynydd cyfrwng Cymraeg ar gyfer y wobr gyda'r cyfrifoldeb o hyrwyddo'r wobr ymhlith myfyrwyr Cymraeg a'i datblygu i fod yn gydnaws â'u hanghenion. Datblygiad arwyddocaol yn hyn o beth oedd cydnabod cyrsiau Cymraeg WLPAN a lansio elfen 'Bonws Dwyieithog' o fewn y Wobr. Mae'r 'Bonws Dwyieithog' yn rhoi cydnabyddiaeth ychwanegol i fyfyrwyr sy'n cwblhau rhai gweithgareddau (megis lleoliadau gwaith neu waith gwirfoddol) yn ddwyieithog. Mae'r 'Bonws Dwyieithog' yn fodd o hybu buddion amlwg dwyieithrwydd yn y gweithle yn ogystal â thanlinellu gwerth y Gymraeg fel elfen sy'n cynyddu cyflogadwyedd graddedigion. **Canolfan Bedwyr** Yn dilyn nifer o fentrau llwyddiannus yn ystod 2010/11, derbyniodd Canolfan Bedwyr ar ran y Brifysgol y brif wobr yng nghategori 'Y Gymraeg yn y gweithle' yn noson wobrwyo'r Gwobrau Ysbrydoli Cymru / Inspire Wales Awards yng Nghaerdydd ym Mehefin 2012. Cafodd y Brifysgol ei henwebu ar gyfer y wobr ar sail ystod eang o weithgareddau sy'n ei galluogi i gynnal gweithle dwyieithog. Rhoddwyd sylw penodol i'r ddarpariaeth ddwyieithog gyfoethog ym meysydd Datblygu Staff a Thechnoleg Gwybodaeth, y gwersi Cymraeg i staff ar bob lefel a'r llu modiwlau cyfrwng Cymraeg sy'n paratoi myfyrwyr ar gyfer gweithio'n ddwyieithog ar ôl iddynt raddio. Yn ganolog i'r enwebiad yr oedd pwyslais y Brifysgol ar gynyddu hyder staff i ddefnyddio'r Gymraeg wrth eu gwaith o ddydd i ddydd - drwy'r prosiect 'Cymorth Cymraeg' yn benodol - a'i dyhead i sicrhau fod gan staff ar draws y sefydliad rôl i'w chwarae wrth hyrwyddo gweithle dwyieithog. **Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (ASA)** Rhoddwyd lle amlwg i'r Gymraeg a'r isadeiledd sy'n cefnogi addysg cyfrwng Cymraeg yn y ddogfen hunanwerthuso a baratowyd gan y Brifysgol ar gyfer Adolygiad Sefydliadol yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ym mis Mai 2012. Tynnwyd sylw penodol at Gynllun Iaith y Brifysgol a'r modd y caiff ei weithredu trwy Ganolfan Bedwyr a sut y mae'r Brifysgol gyfan yn gweithredu arfer dda drwy brif-ffrydio'r Gymraeg yn ei gweithgareddau. Pwysleisiwyd hefyd fel y mae'r Brifysgol yn chwarae rhan flaenllaw ym maes addysg uwch yng Nghymru trwy ei hymwneud â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

	Mae Gen Ti Ddewis Sicrhawyd grant gan Fwrdd yr Iaith er mwyn annog myfyrwyr i ddefnyddio gwasanaethau'r Brifysgol drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ystod Chwefror a Mawrth 2012, cynhaliwyd ymgyrch 'Mae Gen Ti Ddewis', a oedd yn canolbwyntio ar wasanaethau'r Llyfrgell a Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth yn benodol. **Cynllun Cydraddoldeb Strategol** Rhoddwyd lle amlwg i ofynion Cynllun Iaith y Brifysgol yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a ddatblygwyd gan yr Adran Adnoddau Dynol, gan nodi mewn modd hygyrch yr hyn sydd i'w ddisgwyl gan staff y Brifysgol o ran gweithredu'n ddwyieithog. Mae'n enghraifft dda o'r modd y mae'r angen i gydymffurfio â'r Cynllun Iaith yn cael ei annerch o sawl cyfeiriad. **Pontio** Yn 2011/12, gwnaethpwyd dau benodiad o bwys yng nghyd-destun yr angen i sicrhau lle canolog i'r Gymraeg o fewn gweithgareddau project Pontio: penodwyd Elen ap Robert yn Gyfarwyddwr Artistig a'r Athro Jerry Hunter o Ysgol y Gymraeg i arwain y thema ymchwil 'Diwylliant'. **Cynaliadwyedd ym Mhrifysgol Bangor** Yn unol â'r hyn a nodir yn ei Chynllun Strategol ar gyfer 2010-15, sef bod y Brifysgol yn dymuno 'cymryd ein lle fel Prifysgol fyd-eang, gydag enw da am gynaliadwyedd', mae'r Brifysgol wedi bod yn hynod weithgar a llwyddiannus ym maes cynaliadwyedd yn ystod 2011/12. Mae rhoi lle amlwg i'r Gymraeg yn ei gweledigaeth, ei gweithgareddau a'i hymwneud â'r sectorau cyhoeddus a phreifat fel ei gilydd, a hynny fel elfen greiddiol o gynaliadwyedd, yn cynyddu mewn pwysigrwydd. Er enghraifft, mae'r Sefydliad Cymreig ar gyfer Adnoddau Naturiol, sy'n chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o hyrwyddo gwreiddio cynaliadwyedd yn holl weithgareddau'r Brifysgol, hefyd yn gweithio gyda busnesau a sefydliadau eraill i godi ymwybyddiaeth o'r budd economaidd sy'n deillio o fod yn gynaliadwy ac mae hyn yn cynnwys hybu'r buddion a ddaw o allu gweithredu'n ddwyieithog.
Sylwadau	Mae'r ystod o weithgareddau sydd wedi'u hamlinellu uchod yn dangos yn glir fod Prifysgol Bangor yn rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg a bod yr iaith wedi'i phrif-ffrydio i weithgareddau'r Brifysgol.

HYFFORDDIANT CYMRAEG YN Y GWEITHLE (a)

BLAENORIAETH	Datblygu gallu staff presennol y sefydliad i ddefnyddio'r Gymraeg, yn enwedig staff sydd mewn cyswllt cyson â'r cyhoedd.
Dangosydd Perfformiad	Nifer a chanran y staff gweinyddol sydd wedi derbyn hyfforddiant iaith Gymraeg yn y gweithle fesul adran / ysgol.
Targed	Cynnig o leiaf dau gwrs 'Cymraeg yn y gweithle' y flwyddyn sydd wedi'u teilwra i anghenion grwpiau penodol o staff.
Canlyniad	Cyrsiau ail iaith i staff a sesiynau datblygu sgiliau penodol a'r nifer a gofrestrodd arnynt: ▪ Cwrs 40 wythnos (1.25 awr yr wythnos) i Uwch Reolwyr: 11 aelod o staff ▪ Cwrs sgiliau ateb ffôn/gweinyddol (30 munud yn wythnosol): Coleg Celfyddydau a Dyniaethau: 6 aelod o staff ▪ Cwrs sgiliau derbynfa/gofal cwsmer (30 munud yn wythnosol): Y Ganolfan Rheolaeth: 6 aelod o staff ▪ Sgiliau gweinyddol (Awr yn wythnosol): Y Llyfrgell: 4 aelod o staff ▪ Gwersi un-i-un gyda'r Is-ganghellor: 2 awr yr wythnos ar gyfartaledd Cyrsiau Gloywi Iaith a'r nifer a gofrestrodd arnynt: ▪ Cyrsiau wythnosol i staff a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn - 22 (gyda chyfran helaeth o'r rhai hynny'n staff clerigol). ▪ Cwrs undydd a gynhaliwyd ym Mehefin 2012 – 3 (2 staff academaidd, 1 myfyriwr ôl-radd) Mae 10 aelod o staff sydd angen dysgu'r Gymraeg hyd at lefel benodedig, yn unol ag amodau eu penodi, wedi bod yn derbyn hyfforddiant a chefnogaeth gyson gan y Tiwtor Iaith i Staff yn ystod 2011/12. Mae gan bob un ohonynt Gynllun Datblygu ar gyfer eu sgiliau Cymraeg ac mae'n ofynnol yn ôl y cynllun hwn eu bod yn mynychu cyrsiau iaith dwys o leiaf ddwywaith y flwyddyn ac yn cyrraedd targedau penodol o ran y defnydd o'u Cymraeg yn y gweithle.
Sylwadau	Parhawyd â'r gwaith o gynnal cyrsiau yn y gweithle ar gyfer grwpiau penodol o staff (e.e. cynnal y cwrs i uwch reolwyr ac aelodau o'r Llyfrgell), gyda nifer ohonynt yn gweithio mewn adrannau sydd, oherwydd natur y meysydd, wedi bod yn gymharol ddi-Gymraeg. Calondid yw nodi bod 6 o staff yr Ysgol Gwyddorau Eigion a 12 aelod o staff WISCA wedi derbyn 90 munud o hyfforddiant iaith yn wythnosol yn ystod 2011/12. Yn dilyn penodi Tiwtor Cymraeg i Staff yng Ngorffennaf 2011, mae'r nifer ac ystod y cyrsiau a gynigir wedi cynyddu'n sylweddol, a thestun calondid yw gallu nodi bod y niferoedd sy'n derbyn cymorth y Tiwtor wedi cynyddu yn 2011/12, gan gynnwys nifer yr uwch-

	reolwyr sy'n derbyn hyfforddiant iaith mewn sesiynau ffurfiol ac anffurfiol (megis 'Sesiynau Sgwrsio' a gynhelir dros ginio fesul pythefnos).

HYFFORDDIANT CYMRAEG YN Y GWEITHLE (b)

BLAENORIAETH	Datblygu gallu staff presennol y sefydliad i ddefnyddio'r Gymraeg.
Dangosydd Perfformiad	Nifer a chanran y staff academaidd sydd wedi derbyn hyfforddiant iaith Gymraeg fesul adran / ysgol.
Targed	Sicrhau bod y Brifysgol yn rhoi cyfle i staff gynnal a datblygu eu sgiliau ieithyddol i'w galluogi i ddarlithio drwy gyfrwng y Gymraeg.
Canlyniad	Ni chynhaliwyd cwrs iaith yn benodol ar gyfer staff academaidd, ond mynychodd staff academaidd rai o'r cyrsiau iaith a chyrsiau gloywi a restrir uchod. Yn ogystal, cofrestrodd rhai staff academaidd ar gyrsiau Cymraeg yn y gymuned.
Sylwadau	Er na chynhaliwyd cwrs penodol ar gyfer staff academaidd yn 2011/12, mae'n amlwg bod darpariaeth bresennol y Brifysgol o ran cyrsiau iaith a chyrsiau gloywi yn arwain at ddatblygiad cwbl nodedig mewn rhai achosion. Enghraifft ddisglair o'r fath yw Dr Jonathan Ervine o'r Ysgol Ieithoedd Modern, Albanwr a fanteisiodd ar holl ystod darpariaeth hyfforddiant iaith y Brifysgol. O ddilyn y cyrsiau WLPAN hyd at y ddarpariaeth Gloywi Iaith, datblygodd yn siaradwr Cymraeg cwbl rugl. Yn sgil dilyn cwrs y Cynllun Sabothol Cenedlaethol ar gyfer Ymarferwyr Addysg rhwng Ionawr-Mawrth 2012 (cwrs arall a gynigir yn y Brifysgol), fe fydd yn dechrau darlithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn 2012/13 a hynny i fyfyrwyr ym Mangor a sefydliadau eraill. Mae'n werth nodi ei fod hefyd yn gefnogwr brwd o Glwb Pêl-droed Dinas Bangor ac yn creu podlediadau cyfrwng Cymraeg cyson am ei hoff dîm. Dyma ddangos bod darpariaeth y Brifysgol yn gweithredu ar sawl lefel; yn strategol, gall arwain at gynyddu'r ddarpariaeth addysgu cyfrwng Cymraeg a gall hefyd alluogi unigolion di-Gymraeg i gymryd rhan lawn ym mywyd diwylliannol a chymdeithasol yr ardal.

HYFFORDDIANT IEITHYDDOL EHANGACH

BLAENORIAETH	Cynnal cyfleoedd i staff ddatblygu'i sgiliau iaith ar gyrsiau cymunedol ac mewn sesiynau anffurfiol.
Dangosydd Perfformiad	Nifer y staff sy'n mynychu gwersi Cymraeg sydd heb gael eu teilwra'n benodol i anghenion eu swydd.
Targed	Sicrhau cyfle i staff gofrestru ar wersi Cymraeg.
Canlyniad	Ymrestrodd 93 o staff ar gyrsiau cymunedol yn ystod 2011/12.
Sylwadau	Mae 16 o'r aelodau staff hyn wedi cofrestru ar gwrs Uwch, Meistroli neu sesiwn 'Sgwrs a Stori' sy'n dangos eu bod wedi cyrraedd lefel dda o hyfedredd yn y Gymraeg. Gwelwyd cynnydd yn nifer yr aelodau staff sy'n mynychu'r cyrsiau a gynigir gan y Ganolfan Cymraeg i Oedolion, gan gynnwys 46 aelod sy'n dilyn y cyrsiau WLPAN.

CODI YMWYBYDDIAETH O'R CYNLLUN IAITH

BLAENORIAETH	Cynyddu ymwybyddiaeth o gynllun iaith y brifysgol ymhlith staff gan bwysleisio pam y dylid ei weithredu a sut i'w weithredu.
Dangosydd Perfformiad	Nifer y staff sydd wedi derbyn cyflwyniad i'r Cynllun Iaith.
Targed	Cynnal y cyfleoedd cyfredol i gyflwyno'r Cynllun Iaith i staff (e.e. cynefino misol) a datblygu un cyfle ychwanegol y flwyddyn i wneud hynny – un ai trwy gwrs ymwybyddiaeth iaith neu trwy hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth.
Canlyniad	**Cynefino** Mae 160 o staff wedi derbyn cyflwyniad i'r Cynllun Iaith drwy'r sesiynau cynefino i staff newydd (daeth y staff hyn o tua 50 o wahanol adrannau / ysgolion ac unedau ymchwil). **Hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth** Mae materion yn ymwneud â'r Cynllun Iaith wedi'u hintegreiddio i hyfforddiant Cydraddoldeb y Brifysgol. Cyflwynwyd yr hyfforddiant hwn mewn dwy ffordd wahanol yn 2011/12:

	Hyfforddiant wyneb yn wyneb gydag unigolion – 130 aelod o staff Hyfforddiant Cydraddoldeb drwy'r pecyn e-ddysgu dwyieithog – 319 aelod o staff **Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith** Cynhaliwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith eto eleni, gan gyflwyno'r wybodaeth gerbron nifer o adrannau'r Brifysgol gan gynnwys y Swyddfa Gyllid a'r Llyfrgell.
Sylwadau	Mae'r Brifysgol yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Iaith mewn amrywiol ffyrdd. Ym mis Mehefin 2012, cyhoeddodd y Brifysgol ganfyddiadau'r Arolwg Staff – y cyntaf o'i bath mewn oddeutu 5 mlynedd – ac fe neilltuwyd rhai cwestiynau yn yr arolwg er mwyn holi staff am y profiad o weithio mewn sefydliad dwyieithog. Cyhoeddwyd y canlyniadau yn llawn ar wefan y Brifysgol, ond er budd yr adroddiad hwn, dyma gofnodi'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ynghylch yr iaith Gymraeg: ▪ Nododd 64.1% o'r 1214 aelod staff a gwblhaodd yr holiadur eu bod yn siarad neu'n dysgu siarad Cymraeg. ▪ O'r rhai hynny, nododd 89.2% eu bod yn teimlo eu bod yn cael y cyfle i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg yn eu Coleg/Adran. ▪ Roedd 64% yn cytuno bod eu Coleg/Adran yn gweithredu'n ddwyieithog (24% yn tueddu i gytuno, 9% yn tueddu i anghytuno a 4% yn anghytuno) ▪ Roedd 70% yn cytuno bod y Brifysgol yn darparu gwybodaeth am ei Pholisi Iaith (26% yn tueddu i gytuno, 3% yn tueddu i anghytuno ac 1% yn anghytuno) ▪ Roedd 63% yn cytuno bod y Brifysgol yn rhoi cefnogaeth i staff i weithredu'r Polisi (28% yn tueddu i gytuno, 6% yn tueddu i anghytuno a 3% yn anghytuno) ▪ Roedd 67% yn cytuno bod y Brifysgol yn rhoi cefnogaeth i aelodau staff ddatblygu a gwella eu sgiliau Cymraeg (25% yn tueddu i gytuno, 6% yn tueddu i anghytuno a 3% yn anghytuno)

ADRAN 3

Hyrwyddo, datblygu ac ymestyn gwaith cyfrwng Cymraeg y Brifysgol gan amcanu at wireddu hawl myfyrwyr i dderbyn addysg uwch trwy gyfrwng y Gymraeg a / neu'r Saesneg

Maes Datblygu	Manylion	Sylwadau
Nifer y myfyrwyr (CALL) cyfrwng Cymraeg	575.4 (603 yn 2010/11) * *Gweler atodiad B tabl CY4* *Yn ystod yr un cyfnod, gostyngodd nifer siaradwyr Cymraeg rhugl ymhlith myfyrwyr o 1795 i 1576.* *Gweler atodiad B tabl CY1*	Mae'r gostyngiad hwn o 27.6 yn niferoedd y myfyrwyr (CALl) sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn torri ar y patrwm o gynnydd di-dor a gafwyd ers 2007/8. Er bod gostyngiad o'r fath yn siom ar adeg pan mae'r Llywodraeth (trwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol) wedi cynyddu ei buddsoddiad i faes addysg uwch cyfrwng Cymraeg, y mae nifer o ffactorau cyd-destunol mewnol ac allanol sy'n taflu goleuni ar y gostyngiad. Yn ystod y cyfnod dan sylw, gwelwyd gostyngiad cyffredinol o 200 yn niferoedd y myfyrwyr gyda chyfeiriadau cartref yng Nghymru. O fewn y patrwm hwnnw, gwelwyd gostyngiadau arwyddocaol iawn mewn rhai meysydd lle mae canrannau uchel o fyfyrwyr yn

		tueddu i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg (e.e. gwelwyd gostyngiad o 80 yn niferoedd myfyrwyr yr Ysgol Addysg yn 2011/12 a gostyngiad o 70 yn niferoedd myfyrwyr yr Ysgol Gwyddorau Iechyd). Roedd 2011/12 hefyd yn flwyddyn pan na chafwyd unrhyw recriwtio i feysydd Gwaith Cymdeithasol a Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol. Gyda dilysu gradd MA newydd mewn Gwaith Cymdeithasol ar gyfer 2012/13 a sefydlu Ysgol Athroniaeth a Chrefydd ar ei newydd wedd, rhagwelir y gellir adennill niferoedd cyfrwng Cymraeg yn y meysydd hyn. Mewn cyd-destun o'r fath, ac yng nghyd-destun gostyngiad o 219 yn niferoedd y siaradwyr Cymraeg rhugl, nid yw'r gostyngiad yn y CALlau cyfrwng Cymraeg mor sylweddol ag a ofnwyd. Yn wir, mae'n galonogol fod cynnydd iach i'w weld mewn meysydd mor amrywiol ag Astudiaethau Creadigol, Seicoleg a Chemeg. Ar y sail honno ac ar sail y gwaith sy'n

		cael ei wneud gan y penodiadau cyntaf o dan Gynllun Staffio'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, rhagwelir y bydd y patrwm o gynnydd yn y niferoedd CALlau cyfrwng Cymraeg yn cael ei adfer yn 2012/13.
Cynlluniau gradd trwy gyfrwng y Gymraeg / dwyieithog	**'Y Celtiaid / The Celts'** Cwrs MA dwyieithog a gafodd ei ddilysu yn ystod 2011/12. **Nyrsio Is-radd** Ail-ddilyswyd y rhaglen nyrsio isradd gan ymestyn y ddarpariaeth Gymraeg ar draws rhaglenni isradd eraill megis radiograffeg a gwyddorau biofeddygol, drwy sefydlu modiwlau dwyieithog ar y cyd. I gyd-fynd â'r datblygiad hwn, penodwyd dwy ddarlithwraig ran-amser cyfrwng Cymraeg i'r Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd yn Ionawr 2012 (dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol). Yn ogystal â hyn, cafodd Strategaeth Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg yr Ysgol ei gymeradwyo gan Fwrdd Astudiaethau'r Ysgol ym mis Tachwedd 2011. **MA Gwaith Cymdeithasol** Yn ystod 2011/12 dilyswyd y cwrs Gwaith Cymdeithasol ar ei newydd wedd ar gyfer ei gyflwyno am y tro cyntaf ym mis Medi 2012. Bwriad sylfaenol y rhaglen MA dwy flynedd, sydd ar gael yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg, yw paratoi myfyrwyr i allu cymryd swyddi gyda'r gweithlu gwaith cymdeithasol cymwysedig proffesiynol. Y prif amcan yw darparu rhaglen sy'n bodloni gofynion 'Fframwaith ar gyfer y Radd Gwaith Cymdeithasol yng Nghymru' Cyngor Gofal Cymru (2012). Er mwyn cyflawni hyn, mae'r rhaglen yn cynnwys cyfres o fodiwlau	

	academaidd craidd a lleiafswm o 200 diwrnod ar leoliad dros y dwy flynedd. O gwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, bydd myfyrwyr yn cymhwyso i weithio fel gweithwyr cymdeithasol cofrestredig.	
Modiwlau Cymraeg / dwyieithog newydd	Datblygwyd nifer o fodiwlau mewn nifer o adrannau yn ystod 2011/12, gyda nifer wedi eu datblygu'n benodol er mwyn eu rhannu ar Y Porth, sef llwyfan e-ddysgu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Er enghraifft, datblygwyd modiwl dwyieithog 'Seicoleg Datblygiad' ar gyfer myfyrwyr blwyddyn 1 gan Gymrawd Dysgu yn yr Ysgol Seicoleg yn ogystal â 3 modiwl i'w hychwanegu at Y Porth. Rhestrwyd holl fodiwlau Cymraeg a dwyieithog y Brifysgol mewn dau lyfryn; un ar gyfer myfyrwyr blwyddyn 1 a'r llall ar gyfer myfyrwyr blwyddyn 2 a 3. Enghraifft dda o sut y mae ysgolion academaidd unigol yn parhau i ddatblygu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yw'r gwaith a wnaed yn yr Ysgol Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau. Modiwlau Cymraeg a ddatblygwyd o'r newydd gan yr ysgol yn ystod 2011/12: UXC 1120 - Cyflwyniad i Berfformio UXC 2120 - Theatr a Pherfformiad: Cymdeithas UXC 2121 - Theatr a Pherfformiad: Yr Hunan UXC 2067 - Cyfraith y Cyfryngau UXC 2085 - Mentergarwch a Rheoli Cyllid UXC 3065 - Cymdeithaseg a'r Cyfryngau UXC 3060 - Radio: Theori ac Ymarfer Modiwlau Cymraeg a gyflwynwyd am y tro cyntaf yn ystod 2011/12: UXC 1063 - Gweld y Llun	Mae'r ystod meysydd pwnc y cyfeirir atynt yn dangos fod Prifysgol Bangor yn parhau i ddatblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn nifer o feysydd. Mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos fod y Brifysgol yn parhau i gyfrannu at ddatblygiad addysg Gymraeg y tu hwnt i'w muriau.

	UXC 2047 - Y Cyfryngau yng Nghymru UXC 3119 - Newyddiaduraeth Ymarferol Safonol (wedi ei ddysgu ar lefel 2 yn y gorffennol, gyda'r un teitl) UXC 3121 - Ymarfer Theatr	
Enghreifftiau o adnoddau i gefnogi dysgu ac addysgu cyfrwng Cymraeg	**Adnoddau** Bu'r Ysgol Gwyddorau Iechyd yn llwyddiannus iawn eto yn 2011/12 (wedi llwyddiant cyffelyb yn 2010/11) wrth ddatblygu adnoddau i gefnogi addysgu, dysgu ac ymchwil cyfrwng Cymraeg. Dyma dystio bod yr Ysgol Gwyddorau Iechyd yn ymateb i'r gofyn am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn maes sydd â chyswllt amlwg a chyson â chyhoedd Cymru. Llwyddodd yr Ysgol i ennill dau grant o gronfa Cynllun Prosiectau Bach y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, sy'n ymwneud ag adnabod anghenion mentoriaid Cymraeg eu hiaith wrth gynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ogystal â blaenoriaethu a chynllunio darpariaeth genedlaethol i Gymru. Yn 2011/12, llwyddwyd i sicrhau cyllid o gronfa Datblygiadau Strategol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol er mwyn cynnal prosiect ar y cyd rhwng yr Ysgol Ieithyddiaeth a'r Ysgol Addysg. Nod y prosiect yw creu cyfrol Gymraeg ar ddwyieithrwydd ar gyfer myfyrwyr a staff. Hefyd o'r gronfa honno, llwyddodd Yr Athro Huw Pryce o'r Ysgol Hanes, Hanes Cymru ac Archaeoleg i sicrhau nawdd ar gyfer creu safle gwe ar hanes Cymru'r Oesoedd Canol. **Deunydd Marchnata** Ymhlith y deunydd marchnata cyfrwng Cymraeg a gynhyrchwyd gan yr Adran Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata yn ystod	Mae'r amryfal brosiectau y cyfeirir atynt yn arwydd clir fod Bangor yn arwain wrth ddatblygu adnoddau i gefnogi addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg.

	2011/12 yr oedd Prosbectws Ôl-radd 2012, taflenni ar gyfer yr ysgolion academaidd canlynol: Ysgol Athroniaeth a Chrefydd, Ysgol Cerddoriaeth a'r Ysgol Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau. Bu'r Adran CCM hefyd yn gyfrifol am gynhyrchu fideos cyfrwng Cymraeg ar gyfer gwefan y Brifysgol, yn benodol felly ar gyfer denu darpar-fyfyrwyr ond gan hefyd dynnu sylw at ddatblygiadau newydd mewn meysydd a fyddai o ddiddordeb i fyfyrwyr presennol y Brifysgol, e.e. cynhyrchwyd fideo yn trafod Gwobr Cyflogadwyedd Bangor ar gyfer BangorTV. **Rhwydweithiau Cymdeithasol** Atgyfnerthwyd presenoldeb y Brifysgol ar rwydweithiau cymdeithasol megis *Twitter* a *Facebook* gyda phenodiad dau Swyddog Cyfathrebu Brand yn yr Adran Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata. Mae gan y Brifysgol ffrydiau Cymraeg ar y ddwy wefan a enwyd uchod, gyda'r cynnwys yn dilyn y safonau disgwyliedig o ran ansawdd, hygyrchedd a chywirdeb. **Meddalwedd recordio darlith** Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y defnydd o'r meddalwedd **Panopto** yn ystod 2011/12 a bu'r Tîm Technoleg Dysgu yn cefnogi nifer cynyddol o staff i recordio darlithoedd a'u gosod ar Y Porth i'w rhannu â myfyrwyr o sefydliadau eraill. Parhawyd gyda'r gwaith o gynorthwyo nifer o aelodau staff dysgu i osod adnoddau dysgu ar Y Porth, boed yn nodiadau, cyflwyniadau *PowerPoint* neu glipiau fideo. Yn ogystal â hyn, cyflwynwyd gwahanol ddulliau o asesu a chyfathrebu gyda myfyrwyr ar Y Porth. **Sgiliau Astudio** Datblygwyd gwefan y Ganolfan Sgiliau Astudio yn ddwyieithog ac	

	mae datblygu'r wefan ymhellach yn genhadaeth gan y Ganolfan ar gyfer 2012/13. Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd gweithdai sgiliau astudio cyfrwng Cymraeg ar gyfer myfyrwyr o'r Ysgol Addysg a gweithdai dwyieithog ar gyfer myfyrwyr yn yr Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd. **Tystysgrif Genedlaethol Sgiliau Iaith Gymraeg** Parhawyd â'r gwaith o ddatblygu'r cynllun hwn yn ystod 2011/12, gyda phrosiect peilot yn cael ei gynnal rhwng Mai 2011 ac Awst 2012. Dan arweiniad Canolfan Bedwyr, peilotwyd y Cynllun ym Mhrifysgolion Bangor, Y Drindod Dewi Sant a Chaerdydd. Wedi'r cyfnod paratoadol, cafwyd ffug-arholiadau yn Haf 2012 ynghyd ag adroddiad gan yr arholwr allanol yn nodi argymhellion ar gyfer gwelliannau. Bydd y gwaith o ddatblygu a hybu'r Dystysgrif yn parhau yn 2012/13. **Marcio ar-lein** Yn 2011/12, gwelwyd aelodau staff yn dechrau marcio gwaith myfyrwyr ar-lein drwy gyfrwng y Gymraeg. Cynhaliwyd nifer o weithdai i hyfforddi staff ar sut i ddefnyddio'r offer marcio ar-lein (*GradeMark*) o fewn *Turnitin*. Mae'r rhaglen hon yn caniatáu creu storfa o sylwadau Cymraeg fel bod modd eu hail-ddefnyddio a'u rhannu rhwng modiwlau *Blackboard*. Yn ogystal â hyn, mae modd trosglwyddo'r storfa fel ei bod yn gweithio gyda modiwlau sydd wedi eu gosod ar Y Porth. Yn anffodus, ac er gwaethaf ymholiadau i'r perwyl hwnnw gan Grŵp Defnyddwyr *Blackboard* Cymru, nid yw'r cwmni sy'n gyfrifol am feddalwedd *Turnitin* yn bwriadu creu fersiwn Gymraeg ohoni ar hyn o bryd. **Gwefan E-Ddysgu**	

	Bu gwaith datblygu ar wefan yr uned Technoleg Dysgu sydd bellach yn cynnig gwybodaeth a deunydd hyfforddi dwyieithog ar amryfal dechnolegau dysgu gan gynnwys: ▪ Offer recordio darlith **Panopto** ▪ Meddalwedd atal llên-ladrad **Turnitin** ▪ System Ymateb Cynulleidfa ▪ Bwrdd Gwyn rhyngweithiol ▪ Meddalwedd Fideo Gynadledda http://www.bangor.ac.uk/itservices//lt/home.php.cy **Cylchlythyr Gwasanaethau TG** Mae'r tîm Technoleg Dysgu hefyd yn cyhoeddi unrhyw ddatblygiadau yn ymwneud â thechnoleg dysgu sy'n hwyluso darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng Nghylchlythyr Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth yn rheolaidd. http://www.bangor.ac.uk/itservices/newsletter.php.cy **Gloywi Iaith a Chyfieithu** Parhaodd staff Canolfan Bedwyr i gefnogi'r dysgu a'r addysgu cyfrwng Cymraeg drwy wersi Gloywi Iaith, sesiynau hyfforddiant Cysgliad a gwasanaeth cyfieithu testun a chyfieithu ar y pryd. Yn 2011/12, cyfieithwyd dros 4 miliwn o eiriau wrth wasanaethau pob un o adrannau'r Brifysgol; yn adrannau academaidd ac adrannau gwasanaeth. Darparwyd gwasanaeth cyfieithu-ar-y-pryd mewn dros 300 o gyfarfodydd a phrawf-ddarllenwyd dros 93,000 o eiriau yn ystod y flwyddyn.	
Enghreifftiau o weithgareddau y tu allan i'r dysgu ffurfiol a	**Gweithgareddau i ddisgyblion ysgol** Bu'r uned farchnata yn hyrwyddo'r ddarpariaeth cyfrwng	

ddatblygwyd er mwyn cefnogi a hyrwyddo'r dysgu ac addysgu cyfrwng Cymraeg	Cymraeg ymhlith darpar fyfyrwyr eto yn 2011/12 ond gan ymestyn y rhaglen ymhellach drwy gynnwys dau 'Ddiwrnod Adolygu' a oedd wedi'u hanelu at ddisgyblion UG/Lefel A 5 ysgol benodol yn Ne-ddwyrain Cymru. Ymhlith y pynciau a drafodwyd gyda'r disgyblion hyn yr oedd Hanes, Seicoleg, Ieithoedd Modern, Cymraeg a Chymdeithaseg. **Eisteddfod yr Urdd Eryri 2012** Roedd gan y Brifysgol bresenoldeb amlwg ar faes Eisteddfod yr Urdd Eryri 2012 gan ei bod yn un o brif noddwyr yr Ŵyl. Yn ogystal â noddi nifer o gystadlaethau llwyfan a darparu sgrin fideo ar y Maes, roedd gan y Brifysgol stondin llawer mwy na'r arfer ar y maes a chynhaliwyd nifer o weithgareddau ar gyfer plant iau megis Hwyl Gwyddoniaeth, cystadlaethau chwaraeon, gweithgareddau cemeg, profion seicoleg, arddangosfa bywyd môr, Celf a Chrefft a Stori a Chân (a oedd yn cynnwys peintio, adrodd stori a chanu gyda chynrychiolwyr o'r Ysgol Addysg). Paratowyd fideo cyfrwng Cymraeg i'w defnyddio ar y stondin er mwyn hybu'r Brifysgol i ddarpar-fyfyrwyr. Uchafbwynt arbennig oedd gwobrwyo Mr Bryn Tomos (ynghyd â'i wraig) o'r Ysgol Addysg â Thlws John a Ceridwen Hughes am eu gwaith ymroddgar gydag Uwch Adran ac Aelwyd yr Urdd Bangor. **Cwrs Preswyl yng Ngwersyll yr Urdd, Glan-llyn** Am y drydedd flwyddyn yn olynol, cynhaliodd Ysgol y Gymraeg - ar y cyd â'r Urdd - gwrs preswyl wythnos o hyd yng Ngwersyll Glan-llyn ar gyfer myfyrwyr U/UG a chafwyd nifer dda yn mynychu unwaith eto.	

	Gweithgareddau Diwylliannol yn y gymuned ehangach Unwaith eto yn ystod 2011/12, bu i Brifysgol Bangor chwarae rhan allweddol ym mywyd diwylliannol Cymru drwy gefnogi gweithgareddau a chymdeithasau lleol a chenedlaethol. Derbyniodd Gwerfyl Roberts, Uwch-ddarlithydd yn yr Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd, wahoddiad ym Mehefin 2012 gan y *Consortium National de Formation en Santé* (CNFS) i draddodi darlith yn eu cynhadledd, y '3rd National Research Forum on the Health of Canada's Francophone Minority Communities'. Yn dilyn ei hymweliad, mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer cydweithio pellach rhwng y consortiwm a Phrifysgol Bangor. Rhyngddynt, traddododd Dr Jason Walford Davies, Yr Athro Jerry Hunter, Yr Athro Peredur Lynch, Dr. Angharad Price a'r Athro Gerwyn Wiliams ymron i 30 darlith yng ngogledd Cymru a thu hwnt fel rhan o gynllun awduron ar daith asiantaeth Llenyddiaeth Cymru. Derbyniodd Dr Davies ysgoloriaeth gan Llenyddiaeth Cymru a fydd yn ei alluogi i gwblhau ei gyfrol gyntaf o farddoniaeth; gosodwyd cyfrol Yr Athro Wiliams, 'Rhwng Gwibdaith a Coldplay' ar restr fer Llyfr y Flwyddyn 2011 a chyhoeddodd Yr Athro Jerry Hunter ei ail nofel, 'Gwreiddyn Chwerw' ym Mehefin 2012. Yn Awst 2012, etholwyd Yr Athro Huw Pryce o'r Ysgol Hanes, Hanes Cymru ac Archaeoleg yn Gymrawd o Gymdeithas Ddysgedig Cymru. Sefydlwyd y Gymdeithas yn 2010 a'i nod yw dathlu, cynnal, cydnabod, gwarchod a meithrin rhagoriaeth ym	

	mhob disgyblaeth ysgolheigaidd. Derbyniodd Joanna Wright, darlithydd rhan-amser yn yr Ysgol Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau, wobr gan Fenter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig am ei gwaith gyda disgyblion Ysgol Bro Hedd Wyn. Diben y prosiect oedd cyfweld cyn-weithwyr a gweithwyr presennol Gorsaf Ynni Niwclear Trawsfynydd a recordio'r sesiynau holi gyda'r nod o ddadlennu rhywfaint ar effaith gymdeithasol yr orsaf ar yr ardal.	
Ymchwil	Mae staff Prifysgol Bangor wedi parhau i gyfrannu tuag at ymchwil yn y Gymraeg ac ymchwil yn ymwneud â Chymru. Maent hefyd wedi parhau i godi proffil y Gymraeg a Chymreictod trwy eu hymwneud â'r gymuned ryngwladol. Mae blas o'r gwaith hwnnw isod. Dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ymwelodd Dr Aled Llion Jones o Ysgol y Gymraeg â dwy brifysgol yng Ngwlad Pwyl sy'n cynnig rhaglenni i fyfyrwyr sydd â diddordeb yn yr iaith Gymraeg a llenyddiaeth Cymru, sef Prifysgol Gatholig Lublin a Phrifysgol Adam Mickiewicz yn Poznan. Yn sgil ei ymweliad, sefydlwyd trefniant o dan gynllun Erasmus gyda Phrifysgol Gatholig Lublin. Bu'r Athro Peredur Lynch ar ymweliad cyffelyb â Phrifysgol Genedlaethol Gwlad y Basg yn 2011/12. Enillodd Yr Athro Gerwyn Wiliams gymhorthdal gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i noddi ymchwil i waith 'Cynan y Sensor' yng nghasgliad yr Arglwydd Siambrlen yn y Llyfrgell Brydeinig yn Llundain. Bydd ffrwyth yr ymchwil yn gweld golau dydd mewn ysgrif yn *Ysgrifau Beirniadol XXXII.* Cyhoeddwyd cyfrol academaidd sylweddol gan Yr Athro Jerry Hunter yn ystod 2011/12, sef 'Llwybrau Cenhedloedd', astudiaeth o genhadaeth	

	dau Fedyddiwr Cymreig ymhlith pobl y Cherokee yng ngogledd America yn y 19G. Parhaodd Ysgol y Gymraeg i feithrin cysylltiadau ag amrywiol gwmnïau a chyrff allanol eraill yn sgil y cynllun Mynediad i Radd Meistr (ATM). Yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg, lansiwyd 'Llyfryddiaeth Llafar Gwlad', gwaith a baratowyd fel rhan o'r cynllun ATM gan Siôn Pennant Thomas, a hynny mewn cydweithrediad â Gwasg Carreg Gwalch. Bu Dr Jason Walford Davies yn gyfrifol am gydlynu cynllun cyffelyb gyda Chyngor Llyfrau Cymru, a sefydlwyd partneriaethau newydd gyda Chwmni Barn Cyf. a Gwasg y Bwthyn. Derbyniodd Robat Trefor, myfyriwr ôl-radd yn Ysgol y Gymraeg, ysgoloriaeth gan fanc Santander a'i galluogodd i ymweld â Gwlad y Basg er mwyn cyfarfod ag academyddion ac arbenigwyr o Brifysgol Gwlad y Basg a thrafod maes ymchwil iaith. Enillodd Manon Wyn Williams, un o fyfyrwyr ymchwil a thiwtoriaid Ysgol y Gymraeg ym maes drama, gymhorthdal gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a alluogodd iddi gynnal dwy sesiwn holi gyda'r sgriptiwr profiadol, Roger Williams. Derbyniodd yr Ysgol Gwyddorau Iechyd nawdd i gynnal rhaglen PhD ym maes gofal lliniarol i gleifion strôc, a chychwynnodd y fyfyrwraig ar ei hymchwil ar ddechrau blwyddyn academaidd 2011/12.	
Staffio	Penodwyd 9 aelod newydd o staff academaidd dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2011/12, yn y meysydd canlynol: ▪ Yr Amgylchedd	

	▪ Seicoleg ▪ Nyrsio (0.5) x2 ▪ Gwyddorau Cymdeithas ▪ Ieithoedd Modern (Ffrangeg) ▪ Cerddoriaeth (boblogaidd) ▪ Cerddoriaeth (a ffilm) ▪ Cemeg Sicrhawyd nawdd y CCC ar gyfer 7 penodiad newydd ar gyfer blwyddyn academaidd 2012/13 yn y meysydd canlynol: ▪ Ieithyddiaeth ▪ Gwyddorau Cymdeithas ▪ Cerddoriaeth (Iechyd a Lles) ▪ Hanes ▪ Ieithoedd Modern (Almaeneg) ▪ Ecoleg a Sŵoleg y Môr ▪ Gwaith Cymdeithasol	
Ysgoloriaethau PhD y Coleg Cymraeg Cenedlaethol	Ymgymerwyd ag ysgoloriaethau PhD yn y meysydd isod yn 2011/12: **Maes ymchwil** Cymraeg Busnes Gwyddorau Iechyd Seicoleg (x2) Drwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, llwyddodd Prifysgol Bangor i sicrhau cyllid ar gyfer 4 ysgoloriaeth PhD ar gyfer 2012/13. Bydd yr ysgoloriaethau hynny yn cynnal gwaith ymchwil yn y meysydd	

	canlynol: Gwyddorau Cymdeithas, Peirianneg Electronig, Biofeddygaeth ac Amgylchedd a Busnes.	
